Taliad Uniongyrchol Sir y Fflint
Cyfrif Cerdyn Rhagdaledig

Tachwedd 2019

Beth yw Cyfrif Taliad Uniongyrchol?

Cyfrif trafodaethol ydyw wedi'i bweru gan 'Prepaid'. Byddwch yn cael rhif cyfrif, cod didoli a cherdyn credyd a fydd yn caniatáu i chi ei ddefnyddio fel unrhyw gyfrif arferol.

Mae'r cyfrif yn cael ei ddarparu gan Gyngor Sir y Fflint mewn partneriaeth â chwmni ariannol o'r enw Prepaid Financial Services – (PFS). Gall eich cerdyn rhagdaledig gael ei reoli ar-lein neu dros y ffôn. Gan fod popeth yn cael ei gofnodi yn electronig, gallwn weld adroddiadau trafodion, felly ni fydd yn rhaid i chi ddarparu manylion neu gyfriflen incwm a gwariant.

Yr hyn y gallwch chi ei wneud gyda'r cyfrif?

- Bancio ar-lein
- Bancio dros y ffôn
- Sefydlu rheolau sefydlog
- Sefydlu debydau uniongyrchol
- Gwneud trosglwyddiadau banc yr un diwrnod
- Lawrlwytho'r ap ffôn symudol am ddim i weld eich cyfrif ar unrhyw adeg

Yr hyn na allwch chi ei wneud?

- Ysgrifennu sieciau
- Codi arian
- Mynd i mewn i gangen

Beth yw'r manteision i chi?

- Does dim angen darparu unrhyw waith papur chwarterol neu dystiolaeth
- Cewch rybuddion os nad oes digon o arian yn y cyfrif ar gyfer clirio eich debyd uniongyrchol
- Gallwn wneud taliadau ar unwaith i'r cyfrif mewn argyfwng
- Gwybodaeth cyfrif amser real
- Y gallu i wneud taliadau cerdyn os oes angen, e.e. i dalu am eich yswiriant

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Beth yw'r manteision i'r Cyngor?

- Gwybodaeth cyfrif amser real
- Y gallu i wneud taliadau ar unwaith pan fydd angen
- Mae adroddiadau trafodion yn golygu llai o waith papur i'w wirio a'i storio

Beth fydd yn digwydd nesaf?
Unwaith y byddwn wedi cyhoeddi eich cyfrif, bydd manylion rhif eich cyfrif newydd yn cael ei anfon drwy'r post.

Pan fyddwch yn derbyn manylion eich cyfrif, gallwch greu eich cyfrif ar-lein, drwy fynd i www.prepaidfinancialservices.com/flintshire/login.aspx

Ar eich cyfrif ar-lein, byddwch yn gallu gweld cyfriflenni, trosglwyddo arian a sefydlu rheolau sefydlog.

Neu, mae gwasanaeth bancio dros y ffôn ar gael dydd Llun i ddydd Gwener 8am tan 9pm.

Beth yw'r costau?

Sefydlu'r cyfrif a chyhoeddi'r cerdyn cyntaf - rhad ac am ddim i chi
Ailgyhoeddi'r cerdyn os yw'n mynd ar goll neu'n cael ei ddwyn - £4.00
Cadwch eich cerdyn yn ddiogel oherwydd gall Sir y Fflint godi tâl arnoch os ydych yn colli eich cerdyn droeon.

Defnyddwyr Taliadau Uniongyrchol presennol:

Sut fydd y cyfrif newydd yn gweithio i mi?

Ydych chi'n talu eich cynorthwyydd personol, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a / neu asiantaeth drwy siec?
Gallwch sefydlu unigolyn neu asiantaeth fel talai ar eich Cyfrif Taliad Uniongyrchol, y cyfan sydd ei angen yw eu rhif cyfrif a'r cod didoli. Unwaith y byddant wedi'u sefydlu, gallwch fynd ar-lein neu ddefnyddio bancio dros y ffôn i wneud trosglwyddiadau banc yr un diwrnod i'ch talai. Bydd eich cynorthwyydd personol yn derbyn yr arian ar yr un diwrnod yn hytrach na gorfod aros i'w siec glirio.

I dalu Cyllid a Thollau EM, byddwch angen eich rhif cyfrif Cyllid a Thollau EM a'ch cyfeirif i sicrhau bod y taliad yn cael ei gofrestru'n gywir. Efallai y byddwch am siarad â hwy yn gyntaf.

Ydych chi’n defnyddio BACS neu Gyflogau Debyd Uniongyrchol i dalu'r cyflogau?
Bydd y trefniant hwn yn parhau, y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw newid manylion eich cyfrif banc gyda'ch darparwr cyflogau fel eu bod yn cymryd y debyd uniongyrchol o'r Cyfrif Taliad Uniongyrchol, nid eich hen gyfrif.

Ydych chi'n talu eich cynorthwyydd personol drwy drosglwyddiad banc?
Byddwch yn parhau â'r trefniant hwn, o'ch cyfrif newydd yn unig.

Cysylltiadau

Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn mae croeso i chi gysylltu â ni:

Mark Cooper
Cyngor Sir y Fflint, Gwasanaethau Cymdeithasol, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint,
CH7 6NA
Rhif Ffôn: 01352 701101
E-bost: Mark.Cooper@flintshire.gov.uk

Tîm Asesiad Ariannol a Chodi Tâl
Cyngor Sir y Fflint, Gwasanaethau Cymdeithasol, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint,
CH7 6NA
Rhif Ffôn: 01352 701319
E-bost: direct.payments.flintshire@flintshire.gov.uk

Gwasanaethau Ariannol Rhagdaledig (PFS)

Bancio dros y ffôn a gwasanaethau cwsmeriaid: 020 3633 1319

Bancio awtomataidd dros y ffôn i wirio eich PIN, eich balans neu i roi gwybod bod eich cerdyn ar goll neu wedi’i ddwyn:
020 3468 4112 neu
020 3327 1991 neu
020 7183 2248

E-bost: flintshire@prepaidfinancialservices.com

Gwefan: www.prepaidfinancialservices.com/flintshire/login.aspx

Adborth
Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda chi i wneud y gwaith o reoli eich taliadau uniongyrchol mor hawdd â phosibl.

Rhowch wybod i ni sut mae'r system newydd hon yn gweithio i chi. Byddwn yn trin eich sylwadau yn gyfrinachol ac yn eu defnyddio i wella cynllun taliadau uniongyrchol Sir y Fflint yn barhaus.

Rhif Ffôn: 01352 701101
E-bost: Mark.Cooper@flintshire.gov.uk

Cwestiynau Cyffredin

Mae fy nghyfrif taliadau uniongyrchol yn hollol iawn, pam bod angen i mi newid?

Mae yna nifer o resymau pam ein bod yn symud i'r cyfrifon newydd. Mae canghennau yn cau ac nid yw banciau mor hygyrch ag yr arferant fod. Mae llyfrau siec yn cael eu dileu'n raddol, caiff mwy a mwy o drafodion eu trin ar-lein.
Mae'r wybodaeth fonitro sydd ei hangen arnom ar hyn o bryd yn cymryd llawer o amser i chi ei chwblhau ac i ni ei gwirio, yn ogystal â'r costau sy'n gysylltiedig â phapur a storio. Rydym yn symud at ffordd fwy ddi-bapur o weithio a dyma'n union yw'r Cyfrif Taliad Uniongyrchol, di-bapur.

Beth ddylwn i ei wneud gyda'r arian yn fy hen gyfrif?

Bydd angen i chi drefnu iddo gael ei dalu i mewn i'r cyfrif newydd drwy drosglwyddiad banc. Gellir gwneud hyn drwy roi eich cod didoli a rhif cyfrif eich cyfrif newydd i'ch cangen bresennol.

Ydw i'n rhoi'r gorau i ddefnyddio'r system cyflogau?

Na, bydd unrhyw drefniadau cyflogau sydd gennych ar waith yn parhau, y cyfan rydym yn ei wneud yw newid y cyfrif y mae Sir y Fflint yn talu i mewn iddo a'r cyfrif y byddwch chi'n talu allan ohono.

A fydd swm neu amlder fy Nhaliad Uniongyrchol yn newid?

Na, bydd eich taliadau yn parhau yn ddigyfnewid hyd nes bydd eich pecyn gofal yn cael ei adolygu. Bydd eich taliadau yn parhau i gael eu talu bob 4 wythnos ar yr un dyddiadau.

A fydd rhaid i mi dalu am y cyfrif?

Na, bydd Cyngor Sir y Fflint yn talu am gost y cyfrif. Efallai y codir tâl arnoch os byddwch yn colli eich cerdyn credyd gan fod cost i'w ailgyhoeddi.

Rwyf wedi cael fy asesu i wneud cyfraniad, sut ydw i'n talu hyn i mewn?

Gallwch sefydlu archeb sefydlog o'ch cyfrif personol i'ch Cyfrif Taliadau Uniongyrchol gan ddefnyddio rhif y cyfrif a'r cod didoli ar flaen eich cerdyn.

Sut ydw i'n talu am fy yswiriant?

Gallwch adnewyddu / talu am eich yswiriant naill ai drwy; ychwanegu'r cwmni yswiriant fel y talai a drwy dalu gyda throsglwyddiad banc, galw'r yswiriwr a thalu dros y ffôn drwy ddefnyddio eich cerdyn credyd, gofyn i'r cwmni yswiriant sefydlu debyg uniongyrchol o'ch cyfrif newydd.

Ni fyddaf yn defnyddio'r cerdyn credyd, pam ei bod yn rhaid i mi ei gael?

Mae'n dod fel rhan o ddyrannu'r cyfrif, bydd rhif eich cyfrif a'ch cod didoli ar y blaen. Os nad oes ei angen arnoch, cadwch o mewn lle diogel.

Beth fydd yn digwydd os byddaf yn newid fy nghyfeiriad neu os bydd fy amgylchiadau yn newid?

Dylech hysbysu Cyngor Sir y Fflint.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â 03000 858 858 i gael fersiwn Saesneg.

This document is available in English. Please contact 03000 858 858 for an English version.

Cyf: A12PC